





ClwydAlyn

Pentref Pwylaidd Penrhos

Cwestiynau Cyffredin



Meini Prawf Cymhwysedd	3
Costau	3-4
Gofal a Diogelwch ym Mhentref Pwlaidd Penrhos	5
Amgylchiadau unigol	6-7
Pentref Pwylaidd Penrhos	8-9
Fflatiau ym Mhentref Pwylaidd Penrhos	10

Meini Prawf Cymhwysedd

Beth yw'r meini prawf cymhwysedd?
Bydd pob ymgeisydd/ymgeiswyr, gan gynnwys cyplau, sy'n bodloni'r meini prawf canlynol yn cael eu hystyried:

- 55 oed neu hŷn mae angen gofal a chymorth arnynt a / neu mae ganddynt angen cymorth sy'n ymwneud â thai.
- Bydd y panel sgrinio cyntaf yn ystyried ceisiadau gan gyplau, lle mae un neu ddau ohonynt yn bodloni'r meini prawf cymhwysedd.
- Bydd pob ymgeisydd/ymgeiswyr yn cael eu blaenoriaethu yn seiliedig ar y meini prawf cymhwysedd.

Costau

Faint mae'n gostio?
Gweler y daflen ar wahân.

Beth mae'r tâl rhent yn ei gynnwys?
Mae'r tâl rhent yn cynnwys eich holl ymrwymiadau cynnal, gan gynnwys gwaith cynnal bob dydd a gwaith mawr mwy hirdymor (e.e. gosod ffenestri newydd). Does dim angen i chi boeni am unrhyw waith cynnal; y cyfan mae angen i chi ei wneud yw rhoi gwybod i ni am y broblem a bydd rhywun yn dod draw i'w drwsio.

Tâl Gwasanaeth
Rhaid i breswylwyr dalu Tâl Gwasanaeth a thalu am brydau yn wythnosol. Mae'r tâl yn cynnwys pob math o wasanaethau, gan gynnwys:

- Pryd – Un pryd poeth, 2 gwrs y dydd.
- Glanhau ardaloedd cyffredin
- Glanhau ffenestri
- Casglu sbwriel (o'r storfa finiau)
- Garddio
- Cynnal: system agor/cau drysau, larymau tân, goleuadau argyfwng, lifftiau, offer derbyn gwasanaeth teledu, offer yn y ceginau a'r ystafelloedd golchi cyffredin, gwres a goleuadau yn yr ardaloedd cyffredin, offer Teleofal.

Costau (parhau)

Faint fydd y Treth Cyngor?
Ar ôl i'r datblygiad gael ei gwblhau, bydd yr Awdurdod Lleol yn dweud wrthym faint fydd y treth cyngor ar gyfer y cartrefi hyn.

A oes angen i mi dalu blaendal?
Nid ydym yn gofyn am flaendal, ond mae mis o rent a thaliadau gwasanaeth yn cael eu talu fis ymlaen llaw pan fyddwch yn cofrestru a dylai'r cyfrif hwn fod mewn credyd drwy gydol y denantiaeth. Mae hyn er mwyn sicrhau bod y cyfnod rhybudd 4 wythnos ar gael ar ddiwedd y denantiaeth wedi'i gynnwys.

A fyddaf yn gallu fforddio byw ym Mhentref Pwylaidd Penrhos?
Mae rhent a thaliadau gwasanaeth yn daladwy o dan Gontract Meddiannaeth. Yn dibynnu ar eich incwm a chyfalaf, efallai y byddwch yn gymwys i dderbyn budd-dal tai ar gyfer ein rhent a rhai o'r taliadau gwasanaeth. Os ydych yn gymwys i dderbyn budd-dal tai, efallai y byddwch hefyd yn gymwys i dderbyn cymorth ariannol i dalu am wasanaethau gofal a chymorth.

Mae gennym Swyddog Hawliau Lles a fydd yn gallu rhoi cyngor a chymorth i chi a dweud a ydych chi'n gymwys i dderbyn budd-dal tai, neu bob math o gymorth ariannol arall sydd ar gael i bobl hŷn ac anabl. Ein nod yw cynyddu eich incwm fel eich bod yn derbyn y cymorth ariannol mae gennych hawl i'w dderbyn.



Gofal a diogelwch ym Mhentref Pwylaidd Penrhos

Sut bydd y gofal yn cael ei ddarparu?
Bydd Tai ClwydAlyn yn rheoli'r tai ac yn darparu'r gwasanaethau atodol ar y safle a bydd Cyngor Gwynedd yn gyfrifol am ddarparu gofal ar y safle i denantiaid yr aseswyd bod ganddynt angen gofal. Mae pob fflat yn cynnwys yr offer technolegol Teleofal a'r system ddiogelwch ddiweddaraf, felly gellir galw am gymorth drwy wasgu botwm. Dyluniwyd y cynllun cyfan yn unol â safonau 'Diogelu drwy Ddylunio' fel bod tenantiaid yn teimlo'n fwy diogel. Y nod yw cynnal annibyniaeth hyd y gellir, gyda gofal a chymorth yn ôl yr angen, gan roi tawelwch meddwl nawr ac yn y dyfodol.

Pa fath o ofal fydd yn cael ei ddarparu?
Bydd Cyngor Gwynedd yn asesu anghenion gofal tenantiaid y dyrannwyd fflat neu fynagalo iddynt a bydd yn sicrhau bod y tîm gofal ar y safle yn darparu cymorth priodol. Bydd gofal yn cael ei deilwra i'r unigolyn a gellir cynyddu neu leihau'r gofal yn unol ag asesiad parhaus.

Bydd y cynllun yn cynnwys tenantiaid sydd â phob math o anghenion gofal, isel, canolig ac uchel, gan greu cymuned gytbwys sy'n hybu annibyniaeth tra'n cynnig sicrwydd, diogelwch, a llesiant.

Pa fath o ddiogelwch fydd yn y cynlluniau / fflatiau?
Bydd y cynlluniau wedi'u hardystio gan Fesurau "Diogelu drwy Ddylunio", felly bydd preswylwyr yn teimlo'n fwy diogel, e.e. drysau a reolir gan ffobiau, system agor/cau drysau, Teledu Cylch Cyfyng, cloeon ar y ffenestri, a ffensys a waliau o amgylch y datblygiad.

A oes yna system larwm tân?
Oes, rydym yn gosod system larwm tân lawn yn y fflatiau a'r byngalos. Hefyd, mae larymau mwg gwifredig, allanfeydd tân, drysau tân, synwyryddion gwres a chwistrellwyr dŵr ym mhob rhan o'r cynllun.

Amgylchiadau unigol

Rwy'n berchen ar fy nghartref fy hun ac mae gan fy ffrind dŷ tai cymdeithasol. A gaiff y ddau ohonom ddod i fyw i Bentref Pwylaidd Penrhos?
Gallwch, dim bwys pa fath o gartref sydd gennych ar hyn o bryd, gallai'r ddau ohonoch ymgeisio am le.

Rwy'n byw mewn cartref preswyl ar hyn o bryd, a allaf symud yma?
Gallwch, os bydd asesiad yn dangos bod byw'n annibynnol yn addas ar gyfer eich anghenion gallech symud o ofal preswyl.

Gaf i ddod â'm mhartner yma sy'n ieuengach na fi?
Yn ôl y meini prawf cymhwysedd, mae'n ofynnol bod holl breswylwyr y cynllun dros 55 oed, gan mai cynllun i bobl hŷn yw hwn. Mewn rhai amgylchiadau, gall y Panel Dyraniadau ystyried ymgeiswyr o dan 55 oed os oes amgylchiadau eithriadol cryf iawn, ond byddwn yn ystyried hyn ar sail pob achos unigol.

Rwy'n byw mewn cynllun tai gwarch ar hyn o bryd, sut fydd byw ym Mhentref Pwylaidd Penrhos yn wahanol?
Y prif wahaniaeth yw bod gofal a chymorth ar gael ar y safle 24 awr y dydd. Mae bwyty yma hefyd sy'n darparu pryd canol dydd, gweithgareddau cymdeithasol, a chyfleusterau eraill. Mae mathau gwahanol o lety ar gael ac mae cymysgedd o breswylwyr ag anghenion cymorth gwahanol.

Mae fy ngŵr yn wael, ac rydym yn cael llawer o help gan ein teulu a ffrindiau. A fyddai'n bosibl i'r ddau ohonom symud gyda'n gilydd?
Gallwch chi a'ch gŵr aros gyda'ch gilydd, a gall eich teulu a'ch ffrindiau ddal i'ch helpu os ydynt yn dymuno gwneud hynny, gyda chymorth ychwanegol staff gofal y cynllun. Efallai y byddwch yn gwneud ffrindiau newydd hefyd.

Beth fydd yn digwydd os bydd fy iechyd yn dirywio tra fy mod yn byw ym Mhentref Pwylaidd Penrhos?
Rydym yn deall y gall eich anghenion iechyd a gofal newid dros amser. Efallai bydd angen mwy o ofal a chymorth arnoch ar rai cyfnodau, bydd adegau pan fydd angen fawr ddim neu ddim cymorth arnoch, neu gyfuniad o'r ddau. Mae'r tîm gofal yn hyblyg ac yn ymatebol i anghenion sy'n newid. Er nad ydynt yn gallu darparu gofal nyrsio, byddant yn gweithio gyda chi i'ch helpu i aros yn eich cartref cyhyd ag y bo modd.
Bydd unrhyw addasiadau i'ch oriau cymorth yn seiliedig ar asesiad priodol.

Amgylchiadau unigol (parhau)

Gaf i aros yma nes i mi farw?
Nod ein cynlluniau byw'n annibynnol yw darparu cartref am oes i chi. Efallai na fydd hyn bob amser yn bosibl, er enghraifft, os ydych chi'n peri risg i chi eich hun neu i bobl eraill, ond dyma'r nod.

Os byddwn ni'n ymgeisio fel cwpl, a bydd rhywbeth yn digwydd i un ohonom, a fydd gan y llall gartref am oes?
Nod ein cynlluniau byw'n annibynnol yw darparu cartref am oes, fodd bynnag, os bydd eich anghenion gofal yn mynd y tu hwnt i'r hyn y gallwn eu darparu yn y cynllun, neu os byddwch yn peri risg i chi eich hun neu i bobl eraill, yna byddwn yn trafod y dewisiadau fyddai'n bodloni eich anghenion gyda chi, eich teulu a ffrindiau, a'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rwy'n gallu ymdopi ar fy mhen fy hun, ond dydy fy iechyd ddim yn dda ac rwy'n awyddus i symud. A fyddai byw'n annibynnol gyda gofal a chymorth yn addas i mi?
Byddai, mae ein cynlluniau yn gartref i gymuned o breswylwyr amrywiol. Mae rhai yn byw'n gwbl annibynnol, ac mae angen lefelau gwahanol o ofal a chymorth ar eraill, gan gynnwys y rhai sydd ag anghenion cymorth uwch. Mae'r llety wedi'i gynllunio'n ofalus i fod yn hygyrch, yn ddiogel ac yn hawdd ei reoli, gan eich helpu i fyw mor annibynnol â phosibl.

Sut bydd y pecyn gofal a chymorth yn cael ei drefnu? A fydd yn seiliedig ar angen cymdeithasol neu angen meddygol?
Bydd Gweithiwr Cymdeithasol yn trafod unrhyw anghenion cymorth sydd gennych o bosibl ac yn trafod pecyn gofal sy'n addas i'ch anghenion.

Gaf i ddod a'm ci / cath?
Mae gennym bolisi anifeiliaid anwes ar gyfer pob cynllun unigol, yn dibynnu ar osodiad y cynllun. Er mwyn i chi gael cath neu gi mae'n rhaid bod gennych fynediad/allanfa uniongyrchol o'ch fflat, heb fynd trwy ardaloedd cyffredin. Mae hyn fel arfer yn golygu fflat llawr gwaelod gyda mynediad allanol drwy ddrysau patio. Gellir cadw anifeiliaid anwes mewn fflatiau eraill heb fynediad uniongyrchol i'r ardaloedd allanol yn amodol ar fodloni rhai rheolau yn ymwneud â gofalu amdanynt yn iawn a pheidio â gwneud sŵn ac achosi niwsans i bobl eraill. Gall rheolwr eich cynllun roi rhagor o fanylion i chi os bydd eiddo yn cael ei ddyrannu i chi.

Pentref Pwylaidd Penrhos

Sawl fflat 2 ystafell wely ac 1 ystafell wely a sawl bynaglo sydd yna?

Datblygiad Gwedd 1.

- **30 fflat: 25 x 1 ystafell wely, 5 x 2 ystafell wely** - bydd blaenoriaeth ar gyfer y cartrefi hyn yn cael ei rhoi i bobl o'r gymuned leol sydd ag anghenion gofal a chymorth isel i ganolig.

- **12 byngalo** – bydd blaenoriaeth ar gyfer y cartrefi hyn yn cael ei rhoi i bobl o'r gymuned leol sydd ag anghenion gofal a chymorth isel i ganolig.

Pa brydau fydd yn cael eu darparu?
Bydd cinio yn cael ei ddarparu rhwng 12 a 2pm yn y prif fwyty, ac mae'r gost wedi'i chynnwys yn y taliadau gwasanaeth; mae'n cynnwys prif bryd, pwdin a diod.

Mae ein staff arlwyo yn ymfalchïo yn y ffaith eu bod yn gwybod beth yw hoff bethau ac anghenion ein preswylwyr ac maent yn darparu dewis o brydau maethlon ac amrywiol o ansawdd da i fodloni amrywiaeth o ofynion maethol, deietegol ac arbenigol i unigolion ag anghenion pendol. Gall tenantiaid wahodd gwesteion i ymuno â nhw am ginio drwy rhoi archeb i dîm y bwyty yn y bore.

Y gost arferol yw tua £6 y pen ac mae'r taliadau hyn yn cael eu talu'n ôl i'r cyfrif taliadau prydau i gadw'r costau yn isel i'r tenantiaid.

Pa gyfleusterau cyffredin sydd ar gael?

- Gerddi wedi'u tirlunio
- Parcio ar y safle
- Bwyty
- Lolfa preswylwyr
- Ystafell amlweithgareddau
- Eglwys / Ardal gyffredin
- Ystafell i westeion

Pryd bydd Pentref Pwylaidd Penrhos yn agor / Pryd gaf i symud yno?
Ar hyn o bryd, disgwylir y bydd Gwedd 1 yn agor yn ystod gaeaf 2026, ond gall hyn newid os bydd oedi yn y gwaith adeiladu neu os caiff ei gwblhau'n gynt. Byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi wrth i'r datblygiad fynd rhagddo.

Pentref Pwylaidd Penrhos (parhau)

Pryd bydd y fflat arddangos yn agor i ni ymweld â hi?
Agorodd y fflat arddangos yn ystod gwanwyn 2026. Gan fod Pentref Pwylaidd Penrhos yn dal i gael ei adeiladu ac am resymau iechyd a diogelwch, bydd y fflat arddangos ar agor i'r cyhoedd o bryd i'w gilydd, ac ar sail apwyntiad yn unig. Byddwn yn rhoi gwybod i unrhyw ymgeiswyr a phobl sy'n dymuno ymweld â'r fflat arddangos pan fydd ar agor.

Mae gennyf gerbyd, a fydd man parcio yn cael ei ddyrannu i mi?
Bydd mannau parcio yn y cynllun i breswylwyr, nid oes gennym fwriad i ddyrannu'r mannau parcio i unigolion oherwydd y problemau sydd ynghlwm â rheoli trefniadau o'r fath. Bydd parcio ar sail y cyntaf i'r felin.



Y fflatiau a'r byngalos ym Mhentref Pwylaidd Penrhos

Beth fydd maint yr ystafelloedd?
Gweler y cynlluniau unigol ar gyfer y fflatiau / byngalos. Mae ystafelloedd y fflatiau a'r byngalos yn bodloni'r safonau ac yn hael o ran eu maint fel bod modd defnyddio cyfarpar symudedd a symud yn rhwydd o amgylch y fflatiau.

Os bydd fflat / byngalo yn cael ei ddyrannu i mi, pryd gaf i fynd yno i fesur yr ystafelloedd, ayb?
Oherwydd rhesymau lechyd a Diogelwch, bydd yn rhaid aros nes bod yr adeiladwyr yn trosglwyddo'r cynllun yn swyddogol. Mae meintiau'r ystafelloedd sydd wedi'u dangos yn ein llenyddiaeth yn rhai bras, ac ni ddylid dibynnu arnynt at y diben hwn oherwydd mae'n bosibl y bydd gwahaniaeth rhwng rhai fflatiau.

A gawn ni wneud addasiadau, e.e. gosod canllawiau bach yn yr ystafelloedd ymolchi, ayb?
Bydd yn rhaid i Therapydd Galwedigaethol gymeradwyo unrhyw addasiadau a bydd yn rhaid i ni gytuno ar unrhyw waith ymlaen llaw. Os na wneir hyn, gallai beryglu'r cyfnod atebolrwydd diffyg o 12 mis.

A fydd yna ardal arddio?
Bydd gerddi wedi'u tirlunio yn y pentref a bydd ein contractwyr yn gyfrifol am eu cynnal. Mae croeso i breswylwyr osod eu stamp eu hun ar eu hardaloedd allanol, er enghraifft potiau planhigion, etc.

A gaf i addurno'r fflat?
Cewch; ar ôl i'r cyfnod atebolrwydd diffyg 12 mis cyntaf ddod i ben gall tenantiaid addurno eu fflatiau yn ôl eu dymuniad. Cyn i'r cyfnod hwn ddod i ben, mae'n rhaid i ni allu gweld a oes unrhyw graciau neu ddiffygion eraill y mae angen i'r adeiladwr roi sylw iddynt, a gall gwaith addurno guddio difrod o'r fath.